Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Mercher, 21 Chwefror 2024

**Hysbysiad o gyfarfod:**

# Cyngor Sir

## Dydd Iau, 29ain Chwefror, 2024 at 2.00 pm, Council Chamber - Council Chamber

# AGENDA

Cynhelir gweddïau cyn y cyfarfod Cyngor am 13.50pm. Mae croeso i bob aelod ymuno â'r Cadeirydd ar gyfer hynny os ydynt yn dymuno gwneud hynny

.


| Eitem No | Eitem | Tudalennau |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 2. | **Datganiadau o Fuddiant** | |
| 3. | **Cyhoeddiad y Cadeirydd** | 1 - 2 |
| 4. | **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 18fed o Ionawr 2024** | 3 - 8 |
| 5. | **CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2024-28** | 9 - 52 |
| 6. | **ADOLYGU POLISI MRP 2023/24, STRATEGAETH CYFALAF 2024/25, STRATEGAETH Y TRYSOLRYS 2024/25** | 53 - 126 |
| 7. | **ADRODDIAD AR GYNIGION AR DRETH Y CYNGOR** | 127 - 142 |
| 8. | **DYDDIADUR CYFARFODYDD 2024/25** | 143 - 158 |
| 9. | **PWYLLGOR SAFONAU -PENODI AELOD O GYNGOR CYMUNED** | 159 - 170 |
| 10. | **PENODI FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR FYNWY** | 171 - 184 |
| 11. | **CYTUNO AR ENW'R YSGOL GYNRADD EGIN CYFRWNG GYMRAEG NEWYDD YN NHREFYNWY** | 185 - 188 |
| 12. | **CYNIGION I'R CYNGOR:** | |

| | | |
|---|---|---|
| 12.1. | **Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Lisa Dymock**<br><br>Mae Sir Fynwy'n falch o'i threftadaeth ac yn ystyried bod bwyd a ffermio o bwys mawr nawr ac yn y dyfodol. Bydd pawb yma'n fwy nac ymwybodol o'r pwysau ar ein ffermwyr sy'n deillio o bolisïau amrywiol, o TB i reoliadau NVZ a'r polisi diweddaraf sy'n achosi poen difesur yw'r SFS – mae'r meini prawf y bydd yn rhaid i ffermwyr eu bodloni yn anghyraeddadwy a bydd yn ychwanegu pwysau aruthrol ar ein ffermwyr.<br><br>Gofynnaf i'r cyngor hwn alw ar Lywodraeth Cymru i oedi am funud o ran yr ymgynghoriad presennol a gweithio gyda ffermwyr, undebau ffermwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn dod o hyd i ffordd ymlaen sy'n gweithio i bawb - un nad yw'n cosbi ein ffermwyr a'u cymunedau ond yn hytrach, un sy'n eu cefnogi.<br><br>Rydym yn deall pwysigrwydd gwarchod ein amgylchedd a dylid rhoi ystyriaeth gyfartal i hyn, ond heb beryglu diogelwch ein bwyd wrth i ffermwyr gael eu gwthio allan o'r diwydiant. | |
| 13. | **CWESTIYNAU'R AELODAU** | |
| 13.1. | **Gan y Cynghorydd Sir Richard John i'r Cynghorydd Sir Angela Sandles , Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb ac Ymgysylltu**<br><br>Pa ymgysylltu wnaeth y cyngor gyda chanolfannau hamdden yn ystod yr ymgynghoriad ar gyllideb 24-25 | |
| 13.2. | **Gan y Cynghorydd Sir Fay Bromfield i'r Cynghorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd**<br><br>A oes modd i'r Aelod Cabinet roi gwybod am unrhyw atgyweiriadau sydd wedi'u cynllunio i Ffordd Brynbuga os gwelwch yn dda, yn enwedig y rhan o Langybi i Frynbuga. | |
| 13.3. | **Gan y Cynghorydd Sir Richard John i'r Cynghorydd Sir Martyn Groucutt, Aelod Cabinet dros Addysg**<br><br>Sut fydd y Cyngor yn cefnogi disgyblion sy'n agored i niwed yn ystod blwyddyn ariannol 24-25? | |
| 13.4. | **Gan y Cynghorydd Sir Jane Lucas i'r Cynghorydd Sir Paul Griffiths, Aelod Cabinet dros Gynllunio a Datblygiad Economaidd, Dirprwy Arweinydd**<br><br>Pa gamau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i gefnogi busnesau canol tref Trefynwy yn ystod yr amhariad diweddar? | |
| 13.5. | **Gan y Cynghorydd Sir Tony Kear i'r Cynghorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd**<br><br>Yn wyneb y llifogydd a welwyd y gaeaf diwethaf ac eto ers cyfnod y Flwyddyn Newydd, hoffwn ofyn i'r Aelod Cabinet pa feddwl ymlaen a chamau rhagweithiol sy'n cael eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â llifogydd lleol a llifogydd yng nghefn gwlad Sir Fynwy | |

| | | |
|---|---|---|
| 13.6. | **Gan y Cynghorydd Sir Tony Kear i'r Cynghorydd Sir Martyn Groucutt, Aelod Cabinet dros Addysg**<br><br>O ystyried y toriadau arfaethedig i gyllidebau ysgolion yn 24/25, pa sicrwydd y gall yr Aelod Cabinet ei roi disgyblion a'u rhieni yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Brynbuga, sydd yn fy Ward, na fydd ansawdd pryd amser cinio'r plant a maint y dognau'n cael eu heffeithio | |
| 14. | **CYHOEDDI DATGANIAD AR Y POLISI TÂL FEL SY'N OFYNNOL GAN Y DDEDDF LLEOLIAETH** | 189 - 206 |

**Paul Matthews**
**Prif Weithredwr**

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

Rachel Buckler
Laura Wright
Tony Kear
Catrin Maby
Jan Butler
Ian Chandler
Sara Burch
Alistair Neill
Su McConnel
Mary Ann Brocklesby
Fay Bromfield
Jane Lucas
Emma Bryn
Peter Strong
Meirion Howells
Paul Griffiths
Jackie Strong
Rachel Garrick
Maria Stevens
Steven Garratt
Angela Sandles
Ben Callard
John Crook
Tomos Davies
Dale Rooke
Catherine Fookes
Sue Riley
Jayne McKenna
Jill Bond
Louise Brown
Lisa Dymock
Tony Easson
Christopher Edwards
Martyn Groucutt
Simon Howarth
Richard John
David Jones
Penny Jones
Malcolm Lane
Phil Murphy
Paul Pavia
Maureen Powell
Frances Taylor
Tudor Thomas
Armand Watts
Ann Webb

# Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn yn barchus i chi roi rhybudd digonol i ni er mwyn darparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

### Ein Pwrpas

- i ddod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi lles, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o'u bywydau.

### Amcanion rydym yn gweithio tuag atynt

- Lle teg i fyw lle mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau;
- Lle gwyrdd i fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur;
- Lle ffyniannus ac uchelgeisiol, lle mae canol trefi bywiog a lle gall busnesau dyfu a datblygu;
- Lle diogel i fyw lle mae gan bobl gartref maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo;
- Lle cysylltiedig lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi;
- Lle dysgu lle mae pawb yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial.

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

**Caredigrwydd** – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.